

Cŵn gwyrdd

Cwn gwyrdd

Ydych chi wedi clywed am Gystadleuaeth Ci Gwyrdd y Flwyddyn? Cystadleuaeth ar y we yw hi ond peidiwch â phoeni, does dim rhaid peintio'r ci'n wyrdd ...



Mae Jaco, ein Jack Russell, yn wyrdd iawn. Mae'n yfed dŵr glaw - mae gennyn ni fwcedi arbennig yn yr ardd i ddal y dŵr pan fydd hi'n bwrw glaw. Weithiau, rydyn ni'n defnyddio'r dŵr yna i roi bath i Jaco hefyd - ond dydyn ni ddim yn rhoi dŵr y bath iddo i'w yfed wedyn!

Caian

Mae gen i Jack Russell hefyd a dw i wedi gwneud cot arbennig iddi allan o hen ddillad oedd yn y tŷ. Hen bâr o drowsus yw'r darn gwyrdd tywyll; hen siaced feicio fflwroleuol yw'r esgyrn bach a'r pocedi gwyrdd golau a hen flows yw'r leinin.

Beth ydych chi'n ei feddwl?



Casi



Mae Fflos, fy nghi i, yn wyrdd iawn. Mae'n bwyta'r un bwyd ag rydyn ni'n ei fwyta. Felly, does dim angen gwastraffu ynni ac adnoddau fel tun neu bapur ar gyfer creu tuniau na phecynnau bwyd ar ei gyfer o. Hefyd, pan fydd o'n mynd allan i'r ardd i wneud ei fusnes, rydyn ni'n codi'r baw â sgŵp arbennig ac yna'n ei roi ar y domen yn yr ardd. Mae'r baw'n pydru ac yn creu gwrtaith da ac mae Mam yn defnyddio'r gwrtaith yn yr ardd. Ailddefnyddio ... ailgylchu ... gwyrdd iawn!

Rhys

Cyn cael Boswell (ein ci ni), roedden ni bob amser yn gyrru i'r archfarchnad. Nawr, rydyn ni'n cerdded ac yn mynd â fe gyda ni. Yr unig problem yw bod rhaid i un ohonon ni aros tu allan gyda Boswell pan fydd y teulu'n siopa. Tybed ydy hi'n bryd i archfarchnadoedd roi cewyll bach yn y brif fynedfa - mewn rhyw fath o créche ar gyfer cŵn - fel bod y cŵn yn gallu aros ynddyn nhw pan fydd eu perchnogion nhw'n siopa? Un peth da am gerdded i'r archfarchnad: rydyn ni'n fwy heini - ac mae Mam yn dweud ei bod hi'n gwario llai hefyd oherwydd dydyn ni ddim yn gallu cario cymaint o bethau â phetaen ni'n mynd yno yn y car.



Rhian

Gwaith gwahanol

Darllenwch yr e-bost yma ac yna dyfalwch beth yn union yw'r swydd - swyddog blasu beth?

At:	sam.lloyd@gwecym.org	
Oddi wrth:	lyn.evans@gwecym.org	
Testun:	Swydd newydd - Swyddog Blasu	

Helo, Sam.

Newyddion da - ces i'r swydd a dw i wrth fy modd.

Bydda i'n dechrau dydd Llun ac yn gweithio pum diwrnod yr wythnos o 8.00 tan 4.30.

Alla i ddim credu'r peth! Bydda i'n treulio'r rhan fwyaf o'r dydd yn blasu fy hoff fwyd - ond fydd dim rhaid i fi lyncu beth dw i'n ei flasau, diolch byth, neu byddwn i'n siŵr o roi pwysau ymlaen. Bydd rhaid i fi awgrymu sut i wella'r bwyd os dydy e ddim yn blasu'n dda iawn, e.e. drwy gynnwys mwy o ffrwythau, llai o siwgr ac ati. Hefyd, bydd rhaid i fi ddweud ydy e'n edrych yn dda - oes angen gwella'r lliw ac ati.

Yn ystod y cyfweiliad, roedd rhaid i fi flasau 10 gwahanol flas er mwyn gweld oeddwn i'n gallu gweld y gwahaniaeth rhyngddyn nhw - e.e. mefus, mafon, ffrwythau'r goedwig ac ati. Roedd un yno doeddwn i ddim yn siŵr amdano - roedd e'n dywyll, roedd cnau ynddo - ac roedd rhywbeth arall ynddo hefyd. Dw i ddim yn siŵr beth oedd e, ond dim ots - ces i'r swydd. Ar ddiwedd y cyfweiliad, gofynnodd un o'r bobl i fi sut roedd fy nannedd i'n teimlo. "Iawn," atebais i. Diolch byth nad oes dannedd sensitif gyda fi neu fyddwn i ddim yn gallu gwneud y gwaith hwn.

Dw i mor falch fy mod i wedi gwneud cwrs gwyddoniaeth bwyd a 'mod i wedi cael tystysgrif Hylendid Bwyd - roedd y rhain yn help i fi gael y swydd - a'r ffaith fy mod i'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n debyg y bydda i'n mynd i wyliau bwyd ar draws Cymru ac mae gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn help mawr!


Wel, rhaid i fi fynd. Dw i'n mynd i'r dre i brynu cot wen ar gyfer gweithio yn fy labordy. Mae'n ystafell fawr, olau gyda phum rhewgell fawr o leiaf, byrddau mawr a llawer o offer cegin.

Cofion

Lyn

I fyny ... ac i lawr

Darllenwch y posteri yma:



Ydych chi'n gallu hedfan?

Efallai eich bod chi wedi dyfeisio siwt hedfan ... neu beiriant hedfan arbennig i'ch helpu chi i hedfan.

Beth am ddod i weld ydy'r peiriant neu'r siwt yn gweithio?
Dewch i hedfan yng nghystadleuaeth ...

BIRDMAN BOGNOR

Ble: Bognor Regis, De Lloegr

Beth: Rhedeg ar hyd y pier er mwyn cael digon o gyflymder ac yna lansio'ch hun oddi ar y pier i weld pa mor bell gallwch chi hedfan.

GWOBRAU DA!

DEWCH I FWYNHAU'R HWYL



Hedfan mewn siwt-adenydd

Eleni, bydd Pencampwriaeth Hedfan mewn
Siwt-adenydd y Byd yn digwydd oddi ar

Mynydd Tianmen

Ble: Talaith Hunan, China

Beth: Hedfan drwy'r awyr heb unrhyw beiriant i'ch helpu chi - dim ond siwt ysgafn arbennig sy'n cynnwys defnydd rhwng y coesau a'r breichiau - fel adenydd - a pharasiwt.

Neidio oddi ar graig 4,953 o droedfeddi neu 1,510 metr uwchlaw'r môr ac yna gleidio i lawr dyffryn cyn glanio ar y llinell derfyn - yn ddiogel, gobeithio!

MAE HEDFAN MEWN SIWT-ADENYDD YN UN O'R CHWARAEON
EITHAFOL MWYAF HERIOL.

Gan ei fod mor beryglus, dim ond arbenigwyr sy'n cael cystadlu yn y bencampwriaeth.

BETH sy ar y fwydlen?

Beth rydych chi'n ei fwyta mewn diwrnod fel arfer?

Sawl pryd o fwyd rydych chi'n ei gael?

Ydych chi'n bwyta rhwng prydau bwyd - ydych chi'n cael tamaid i aros pryd? Beth ydych chi'n ei gael?


Ydych chi'n bwyta'n iach, yn eich barn chi? Pam rydych chi'n dweud hynny?

Allech chi fwyta'n iachach? Pam rydych chi'n dweud hynny?

Mae'r darn isod yn sôn am ddyn oedd yn arfer bwyta diet rhyfedd iawn - diet oedd ddim yn iach o gwbl!

Michael Lotito (1950-2007)

Pan fyddwch chi'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta'ch bwyd, efallai y bydd cyllell a fforc edi eu gosod yn daclus o'ch blaen chi.



Fel arfer, rydych chi'n **defnyddio'r** gyllell a'r fforc i fwyta'ch bwyd. Fyddech chi byth yn bwyta'r gyllell a'r fforc! Ddylech chi ddim bwyta cyllell ... na fforc ... nac unrhyw ddarn arall o fetel!
MAE'N DDRWG IAWN I CHI!

Ond roedd un dyn yn Ffrainc wrth ei fodd yn bwyta metel. Michael Lotito oedd ei enw ac roedd e'n byw yn Grenoble.



Pan oedd Michael yn naw oed, roedd ganddo gyflwr meddyliol arbennig o'r enw Pica. Roedd e eisiau bwyta pethau rhyfedd iawn. Un diwrnod, dechreuodd fwyta rhannau o deledu'r teulu. Yna, dechreuodd fwyta pethau rhyfedd eraill - pethau o fetel neu o wydr.

Wrth lwc, roedd ganddo leinin trwchus iawn i'w stumog a'i goluddion, ac felly doedd y pethau roedd e'n eu bwyta ddim yn achosi problemau iechyd iddo.

Roedd pobl yn rhyfeddu at ddiet Michael. Felly, penderfynodd ddechrau perfformio'n gyhoeddus. Roedd pobl yn dod o bell i'w weld yn bwyta tua kilogram o fetel ar y tro.

Sut roedd e'n bwyta'r pethau hyn? Roedd e'n torri'r pethau metel yn fach ac yn yfed olew mineral a digon o ddŵr fel ei fod yn gallu llyncu'r metel.

Yn ystod ei oes, mae'n debyg ei fod wedi bwyta:

- 18 beic
- 15 trol siopa
- 7 teledu
- 2 wely
- 1 pâr o sgis
- 1 arch
- 6 canhwyllwr
- cadwyn 400 metr o hyd
- 1 awyren Cessna 150. Cymerodd hi ddwy flynedd (1978-1980) i'w bwyta.



Ond ...

doedd e ddim yn gallu bwyta wyau wedi berwi na bananas. Roedden nhw'n gwneud iddo deimlo'n sâl!



Gair o gyngor!

Da chi, peidiwch chi byth â gwneud rhywbeth mor ddwl! Mae'n beryglus iawn, iawn!

Cyflwr meddyliol yw Pica sy'n gwneud i bobl fwyta pethau rhyfedd fel clai, tywod, botymau, papur, sebon ac ati. Mae hyn yn beryglus iawn, wrth gwrs, gan fod y pethau hyn yn gallu mynd yn sownd yn y coluddion a rhaid cael triniaeth i'w tynnu oddi yno. Mae'n gallu gwenwyno'r corff hefyd ac arwain at anaemia.

Mae'r enw Pica yn dod o'r gair Lladin, pica, sy'n golygu pioden - aderyn sy'n casglu pob math o bethau.



Gwaith gwahanol

Tama yw fy enw i. Dw i'n dod o Kinokawa, Wakayama, yn Japan. Cefais fy magu yn agos iawn i orsaf Kishi ac roeddwn i wrth fy modd yn crwydro yno gyda fy ffrindiau pan oeddwn i'n ifanc oherwydd roedd y teithwyr a rheolwr yr orsaf yn arfer taflu bwyd i ni. Roedden ni wrth ein bodd yn derbyn y darnau bach blasus, er bod rhai ohonon ni'n ymladd am y darnau gorau weithiau. Ond dyna ni - mae hynna i gyd yn y gorffennol!



Gorsaf Kishi - ydych chi'n gallu gweld fy enw i ar y to?

Bu bron i orsaf Kishi gau yn 2004 oherwydd problemau ariannol ond, diolch byth, bu'r bobl leol yn protestio a chafodd yr orsaf aros ar agor. Yna, ym mis Ionawr 2007, digwyddodd rhywbeth rhyfeddol. Cefais i fy mhenodi'n rheolwraig yr orsaf a chefais het rheolwr smart a bathodyn i'w gwisgo.

Roedd hwn yn ddiwrnod pwysig nid yn unig i fi ond i'r orsaf hefyd. Dw i ddim yn hoffi brolio, ond o'r diwrnod hwnnw, newidiodd y sefyllfa ariannol yn llwyr. Dechreuodd mwy a mwy o bobl (neu ddylwn i ddweud "miaw a miaw o bobl"?) deithio i'r orsaf i fy ngweld i wrth fy ngwaith. Yn ystod y mis cyntaf ar ôl fy mhenodi, roedd cynnydd o 17% yn nifer y teithwyr oedd yn teithio yma. Dros y flwyddyn gyfan, roedd cynnydd o 10%. Felly, dechreuodd y cwmni trenau a chwmnïau eraill yn yr ardal wneud mwy o arian. Yn ôl yr arbenigwyr, roedd fy mhenodi i'n golygu ychwanegu 1.1 biliwn yen i'r economi lleol.

Mae pobl yn Japan (a rhai pobl mewn gwledydd eraill) yn meddwl bod creaduriaid fel fi yn lwcus. Rhaid ein bod ni!

Fy mhrif waith yw cyfarch y teithwyr a dw i'n mwynhau gwneud hynny. Dw i wrth fy modd yn mynd i fyny at rai ohonyn nhw a rhwbio fy nghorff yn eu coesau. Dw i ddim yn derbyn unrhyw gyflog am hyn, cofiwch, ond dw i'n cael digon o fwyd yn rhad ac am ddim a dw i'n ddigon hapus.

Yn 2008, cefais i ddyrchafiad i "super station master" mewn seremoni arbennig. Erbyn hyn, fi oedd yr unig reolwraig yn y cwmni trenau - dynion oedd pob rheolwr arall. Roeddwn i'n gweithio o naw o'r gloch tan bump o'r gloch bob dydd - ond am ddydd Sul. Roedd gen i swyddfa arbennig (hen swyddfa docynnau) ac roedd gen i focs bach digon hyfryd fel toiled.



Fy swyddfa i

Yn 2012, cefais i ddyrchafiad arall - i swydd swyddog gweithrediadau ("operating officer") gan fy mod i'n dal i ddenu mwy a mwy o deithwyr i'r orsaf. Cefais i ddau gynorthwy-ydd hefyd - Chibbi a Miiko.

Dw i wedi bod mewn dwy ffilm - *La Voie du Chatyn* Ffrangeg a *Katzenlektionen* yn Almaeneg.

Dw i'n dipyn o seléb, a dweud y gwir. Mae llyfr wedi cael ei ysgrifennu amdana i ac mae lluniau o fy wyneb hardd yn ymddangos ar fapiau, llyfrau nodiadau a phob math o gofrodion.

Erbyn heddiw, mae trên arbennig wedi cael ei enwi ar fy ôl i, ac mae lluniau o gathod ar ei hyd - pyrrrffraith!




Trên Tama

Mowgli modern

Ydych chi wedi gweld y ffilm *The Jungle Book*? Yn y ffilm, mae bachgen ifanc o'r enw Mowgli yn byw yng nghanol yr anifeiliaid yn y jyngl. Mae e'n dod yn ffrindiau gyda rhai ohonyn nhw tra mae anifeiliaid eraill yn ceisio'i ladd.

Efallai eich bod chi'n meddwl bod y stori yma'n un anodd ei chredu, ond cafodd un ferch ei magu yng nghanol anifeiliaid Affrica a daeth yn ffrindiau mawr â nhw.

Tippi Degré yw enw'r ferch. Cafodd ei geni yn Namibia, yn 1990, a'i magu yn Affrica.




Ffotograffwyr o Ffrainc oedd ei rhieni hi ac roedden nhw'n byw yn Affrica am gyfnod, gan eu bod yn gweithio yno, yn tynnu lluniau o anifeiliaid gwyllt. Gan nad oedd plant eraill yn yr ardal iddi chwarae gyda nhw, daeth Tippi'n ffrindiau gyda'r anifeiliaid gwyllt yn yr ardal a chafodd lawer o hwyl yn eu cwmni.

Roedd yr anifeiliaid yn berffaith hapus yn ei chwmni. Roedd yr estrys yn hapus iddi eistedd ar ei gefn. Roedd y llewpard yn caniatáu iddi orwedd wrth ei ochr. Roedd yr eliffant yn fodlon iddi eistedd ar ei drwnc. Roedd ganddi hi berthynas agos iawn gyda chenawon llewod, sebraod, crocodeilod, tsitaod, nadroedd a phob math o anifeiliaid eraill. Roedd hi'n eu parchu nhw ac roedden nhw'n ei pharchu hi.

"Gan nad oedd plant eraill yno, nhw oedd fy ffrindiau i," dywedodd Tippi un tro.

Yn ogystal â'r anifeiliaid, roedd pobl yr ardal yn ei derbyn hi fel un ohonyn nhw ac roedden nhw'n dysgu eu ffordd nhw o fyw iddi.

Mae Tippi wedi cyhoeddi llyfr o'r enw *Tippi: My Book of Africa*, sy'n cynnwys nifer o luniau anhygoel ohoni hi a'r anifeiliaid. Mae llawer ohonyn nhw ar y we hefyd - ewch i chwilio amdanyn nhw.




Mowgli modern

Yn wreiddiol, llyfr oedd *The Jungle Book*. Cafodd ei ysgrifennu gan Rudyard Kipling yn 1894.


Yna, ysgrifennodd yr awdur ail lyfr, *The Second Jungle Book* yn 1895.

Roedd y llyfrau'n cynnwys straeon byrion a cherddi a oedd yn sôn am fachgen ifanc o'r enw Mowgli a oedd yn byw yn y jyngl.



Celf ryfeddol

Edrychwch ar y llun yma'n ofalus. Ydy e'n eich atgoffa chi o lun arall?



www.airigami.com

Parodi:

Copïo arddull rhywun arall er mwyn gwneud i'r
gwaith edrych yn ddoniol

Mae'r llun yn barodi o'r *Mona Lisa* gan Leonardo da Vinci.

Edrychwch yn ofalus arno eto. Allwch chi weld pa ddeunyddiau sydd wedi eu defnyddio i greu'r llun?

Edrychwch ar y lluniau yma hefyd - efallai y bydd y rhain yn eich helpu chi i ddod o hyd i gyfrwng y gwaith.



Llun sy'n seiliedig ar lun James McNeil Whistler:

Portread o'i fam

www.airigami.com



Llun sy'n seiliedig ar lun Paul Cezanne:

Bywyd llonydd gyda ffrwythau

www.airigami.com

Mae rhai artistiaid yn defnyddio olew yn eu gwaith; mae rhai'n defnyddio pastel; mae rhai artistiaid yn ailgylchu deunyddiau wrth iddyn nhw greu campwaith ond mae Larry Moss, a'i bartner dylunio Kelly Cheadle, yn defnyddio cyfrwng gwahanol iawn - maen nhw'n defnyddio balwnau! Edrychwch eto - allwch chi weld y balwnau?

Beth yw'r enw ar y grefft yma?

Airigami yw'r gair mae'r ddau artist yma'n ei ddefnyddio am eu crefft. Mae'n gyfuniad o gerflunio, darlunio ac origami - y grefft o wneud modelau o bapur.

Beth sy'n ysbrydoli'r artistiaid yma?

Mae'r ddau artist yn cael eu hysbrydoli gan weithiau rhai o artistiaid enwocaf y byd.

Mae'r llun yma'n barodi o'r llun enwog, *Y Ferch â Chlustdlws perl* gan Johannes Vermeer. Chwiliwch am y llun gwreiddiol, *The Girl with a Pearl Earring*, ar y we.



Llun sy'n seiliedig ar lun Johannes Vermeer,
Y ferch â'r clustdlws perl,
www.airigami.com

Beth arall maen nhw'n ei wneud?

Mae'r ddau artist yn creu cerfluniau mawr allan o falwnau er mwyn eu gosod mewn digwyddiadau arbennig fel priodasau ac ati. Dychmygwch fynd i briodas a gweld cerflun mawr lliwgar o'r priodfab a'r briodferch wedi ei greu o falwnau.

Yn anffodus, dim ond am tua 5-7 diwrnod y mae'r gwaith yn para gan ei fod wedi ei greu o falwnau. Os yw cwsmer eisiau darn sy'n para am fwy na hynny, rhaid cael artistiaid wrth law i ailadeiladu'r gwaith pan fydd angen.



Larry Moss a'i bartner dylunio, Kelly Cheatle

Yn ogystal, mae Larry Moss yn cynnal gweithdai celf. Mae e'n meddwl bod y rhain yn bwysig iawn oherwydd bod pobl yn dod at ei gilydd i gydweithio mewn prosiect arbennig ac mae cydweithio'n bwysig iawn.

"Pan fydd pobl yn sefyll yn ôl i edmygu eu gwaith a dweud, 'Waw, mi wnes i helpu gyda'r prosiect yma!', mae'n gallu gwneud iddyn nhw ddechrau meddwl pa brosiectau eraill y gallen nhw gydweithio arnyn nhw," meddai.

Un enghraifft o hyn yw'r cerflun isod a gafodd ei greu ym Mol, Gwlad Belg, yn y flwyddyn 2000. Daeth 24 o artistiaid o 11 gwlad at ei gilydd i greu'r gwaith hwn a rhyngddyn nhw roedden

nhw'n siarad 7 iaith. Er eu bod nhw'n dod o gefndiroedd gwahanol, roedd un peth yn eu huno - y prosiect.



Torrodd y gwaith hwn record y byd am y cerflun mwyaf yn y byd sydd wedi ei wneud o falwnau sydd ddim yn grwn. Roedd 40,781 o falwnau yn y gwaith ac mae cofnod ohono yn *The Guinness Book of World Records*.

Gwaith gwahanol

Darllenwch y darn a dyfawch beth yw'r gwaith.

Pan gefais i'r swydd yma, dywedodd y dyn wnaeth fy hurio i, "Cofia ddod â chadair haul a llyfr da oherwydd byddi di'n eistedd am oriau hir yn y swydd hon."



Roedd e'n iawn oherwydd dw i'n treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn eistedd. Fodd bynnag, dw i ddim yn cael cysgu, oherwydd rhaid i fi wyllo'n ofalus ac weithiau rhaid i fi neidio ar fy nhraed a chanu'r acordion neu gloch. Mae hyn yn ddigon i ddychryn unrhyw un neu unrhyw beth! Pan dw i ddim yn eistedd, dw i'n cerdded yn ôl ac ymlaen ... yn ôl ac ymlaen... yn ôl ac ymlaen.



Pa gymwysterau sydd gen i? Wel, dw i wedi graddio mewn Saesneg a cherddoriaeth ond dydy'r cymwysterau hyn ddim yn bwysig yn y swydd hon a dweud y gwir. O leiaf dw i'n cael cyfle i fwynhau darllen llyfrau Saesneg a gwrando ar gerddoriaeth yn fy ngwaith. Dyma un o fanteision y swydd! Dw i wedi bod yn dysgu sut i chwarae'r consortina ers i fi ddechrau gweithio hefyd - a dw i wedi gwneud llawer o sudokus. Dw i wedi cael cyfle i wyllo ceirw a gwiwerod hefyd.



Mantais arall yw'r wisg - efallai!? Nid pawb sy'n cael gwisgo cot oren llachar, trowsus thermal a thri phâr o sanau (er mwyn cadw fy nhraed yn gynnes) i'r gwaith.

Mae'r oriau gwaith yn iawn. Dw i'n dechrau am hanner awr wedi saith y bore ac yn gorffen am bedwar o'r gloch. Ddim yn ddrwg! Mae llawer o fy ffrindiau sy'n gweithio oriau hirach mewn swyddi prysur yn teimlo'n reit eiddigeddus, ond o leiaf maen nhw'n cael cyflog da. Dw i'n ennill tua £250 yr wythnos.

Yn anffodus, dim ond am ddwy neu dair wythnos y mae'r swydd hon yn para a bydd rhaid i fi chwilio am swydd arall cyn bo hir. Pa swydd arall sy'n cynnig cyfle i eistedd ... canu'r acordion ...

cerdded yn ôl ac ymlaen ... yn ôl ac ymlaen ... gwylio byd natur ... ac ymlacio tra dw i'n gweithio?
O, wel ...

Eliffant yn "siarad"

Ydy anifeiliaid yn gallu cyfathrebu â'i gilydd?

Wel, ydyn, wrth gwrs.

- Mae cwningod yn taro'r ddaear â'u traed pan fydd perygl er mwyn rhybuddio'i gilydd i fynd i guddio.
- Mae adar yn gwneud synau arbennig i ddangos i'w gilydd pan fydd perygl gerllaw.
- Mae ceiliogod adar yn canu'n hyfryd er mwyn denu cymar.

Rhai enghreifftiau'n unig sydd uchod o anifeiliaid yn cyfathrebu â'i gilydd.

Ydy anifeiliaid yn gallu cyfathrebu â dyn?

Wel, "ydyn" yw'r ateb eto.

Pan fydd ein ci ni eisiau sylw, er enghraifft, mae'n dod ac yn rhoi ei bawen ar fy nghoes ac yna, mae'n mynd â fi tuag at beth bynnag mae e eisiau - y bocs bwyd fel arfer neu weithiau mae'n mynd â fi at y drws os yw e eisiau mynd allan.

Mae fy nghy i'n deall geiriau hefyd. Yn wir, mae'n bosib dysgu ci - ac unrhyw anifail arall, dw i'n siŵr - i ymateb i:

- Eistedd
- Amser bwyd
- Wyt ti eisiau mynd am dro?
- Drwg!

Fodd bynnag, nid yw anifeiliaid yn medru ateb yn ôl drwy ddefnyddio geiriau - fel arfer - ond mae'n debyg bod un eliffant, yn Ne Korea, wedi dechrau defnyddio geiriau i gyfathrebu â phobl.

Mae Koshik, eliffant sy'n byw yn Sŵ Everland, yn Ne Korea, wedi dysgu sut i "ddweud" y geiriau hyn:

- annyong (helo)
- anja (eistedd)
- aniya (na)
- nuo (gorwedd)
- choah (da)

Gan nad oes ganddo wefusau fel ni a gan fod gwddf eliffant yn wahanol i wddf person, mae Koshik wedi gorfod dod o hyd i ffordd wahanol o gynhyrchu'r sain. Mae'n rhoi ei drwnc i mewn i'w geg ac yna'n cynhyrchu'r sain.



Er mwyn asesu pa mor dda yw ei ynganiad, gofynnodd gwyddonwyr i bobl sy'n siarad iaith Korea wrando ar recordiadau o'r eliffant yn siarad ac yna sillafu beth roedden nhw wedi ei glywed. Roedd y rhan fwyaf yn gallu sillafu'r geiriau. Felly, mae Koshik yn ynganu'n eitha clir.

Mae'n debyg bod Koshik wedi dechrau "siarad" pan oedd tua 14 oed. Ar y pryd, fe oedd yr unig eliffant yn y sŵ ac efallai ei fod wedi cynhyrchu'r geiriau er mwyn cyfathrebu a bondio gyda'i giperiaid.

Dolffiniaid yn siarad ag acen Gymreig

Yn ôl gwyddonwyr, mae'r dolffiniaid sy'n byw ym Mae Aberteifi yn "siarad ag acen Gymreig".

Fel arfer, mae dolffiniaid yn cyfathrebu â'i gilydd drwy wneud sŵn clicio, cyfarth, chwibanu neu ochneidio.

Yn ddiweddar, mae gwyddonwyr wedi bod yn creu geiriadur o synau'r dolffiniaid ym Môr Iwerydd er mwyn ceisio gweld beth yw ystyr y gwahanol synau. Hyd yma, maent wedi cofnodi bron 2000 o synau. Wrth iddynt wneud hyn, maent wedi dod i'r casgliad bod chwibaniad dolffiniaid Gorllewin Cymru yn wahanol i chwibaniad y dolffiniaid sy'n byw oddi ar arfordir Iwerddon. Da 'tel!



Mae'r dolffin trwyn potel yn byw oddi ar arfordir Gorllewin Cymru ac yn "siarad" ag acen Gymreig!

Mwwwwwwwwwwwwyyu o acenion

Yn dilyn ymlaen o'r stori uchod, mae gwneuthurwyr caws yng Ngorllewin Lloegr - a gwyddonwyr - yn mynnu bod gan wartheg Gorllewin Lloegr acen wahanol i acen gwartheg mewn rhannau eraill o Brydain. Wir!



